**Memorandwm Esboniadol i'r Mesur Arfaethedig Ynghylch Ffïoedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru)**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i, byddai darpariaethau'r Mesur Arfaethedig Ynghylch Ffïoedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru), a gyflwynais ar 29 Mehefin 2009, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mrs Gwenda Thomas AC
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol
Aelod y Cynulliad sy'n gyfrifol am y Mesur Arfaethedig

12 Ionawr 2010

Y dudalen gynnwys


**RHAN 1**

1. Disgrifiad
2. Cefndir Deddfwriaethol
3. Pwrpas ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth
4. Ymgynghoriad
5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**RHAN 2 – ASESU'R EFFAITH**

7. Opsiynau
8. Costau a manteision
9. Asesu'r Gystadleuaeth
10. Adolygu ar ôl gweithredu

**ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol**

## 1. Disgrifiad

1.1 Prif swyddogaeth y Mesur arfaethedig ynghylch Ffïoedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru) ("y Mesur") yw galluogi a grymuso. Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi, mewn is-ddeddfwriaeth ac mewn canllawiau, fanylion fframwaith tecach, mwy cyson i awdurdodau lleol eu mabwysiadu wrth godi ffïoedd ar ddefnyddwyr gwasanaethau unigol am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl.

1.2 Bydd hyn yn golygu y caiff yr anghysonderau helaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd ym mholisïau codi ffïoedd awdurdodau lleol eu lleihau'n sylweddol. Bydd yn ffordd o sefydlu system sy'n deg i bob grŵp cleientiaid, mae'n syml i'w ddeall ac yn gost-effeithiol i'w weinyddu a bydd yn lleihau baich ffïoedd ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

1.3 Bydd y Mesur arfaethedig yn creu darpariaeth annibynnol sy'n rheoli trefniadau codi ffïoedd am wasanaethau cymdeithasol dibreswyl yng Nghymru. Bydd yn diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol sy'n rheoli trefniadau codi ffïoedd fel mai dim ond i wasanaethau a ddarperir ar ffurf gofal preswyl y bydd yn berthnasol i Gymru. O ran Lloegr, bydd y ddeddfwriaeth bresennol yn parhau fel y mae.

## 2. Cefndir deddfwriaethol

2.1 Mae'r pŵer i greu'r Mesur hwn i'w weld yn adran 93 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32) ac mae cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar y mater hwn i'w weld ym mater 15.1 Maes 15 Atodlen 5 y Ddeddf. Yn wreiddiol nodwyd mater 15.1 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) ar 9 Gorffennaf 2008 (OS 2008/1785) ("Gorchymyn 2008"). Mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol, roedd Gorchymyn 2008 yn caniatáu gwneud darpariaeth mewn Mesur Cynulliad i reoli taliadau mewn perthynas â defnyddiwr y gwasanaeth neu'r bobl sy'n gofalu amdanynt. Fodd bynnag, yn dilyn hynny, ehangodd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009 gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol. Diwygiodd Gorchymyn 2009 gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol i gynnwys taliadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau neu unrhyw berson arall at ddibenion sicrhau'r gwasanaethau gofal cymdeithasol angenrheidiol. Gyda'i gilydd mae'r ddau Orchymyn hwn yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth am y canlynol:

*Mater 15.1*

*"Ffïoedd a godir gan awdurdodau lleol am ofal cymdeithasol a ddarperir neu a sicrheir ganddynt a thaliadau ar gyfer unigolion ag anghenion penodol sy'n ymwneud â'u llesiant fel bod modd iddynt hwy, neu i unrhyw berson arall, sicrhau gofal cymdeithasol i ddiwallu'r anghenion hynny."*

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys y canlynol:-

(a) cymorth plant;

(b) credydau treth;

(c) budd-dal plant a lwfans gwarcheidwaid;

(d) nawdd cymdeithasol;

(e) cronfeydd byw annibynnol;

(f) Motability.

2.2 Diffiniwyd y term "gwasanaethau gofal cymdeithasol" yng Ngorchymyn 2008 at ddibenion Maes 15 fel a ganlyn:-

"gofal dibreswyl,...cymorth,...cyngor neu gwnsela a ddarperir...mewn cysylltiad â llesiant unrhyw berson".

2.3 Diffiniwyd y term "llesiant" hefyd yng Ngorchymyn 2008:
*"ystyr "llesiant", mewn perthynas ag unigolion, yw llesiant i'r graddau y mae'n ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:-*

*(a) llesiant corfforol ac emosiynol a llesiant iechyd meddwl;*
*(b) diogelwch rhag niwed ac esgeulustod;*
*(c) addysg, hyfforddiant a hamdden;*
*(d) y cyfraniad at y gymdeithas a wneir ganddynt;*
*(e) llesiant cymdeithasol ac economaidd;*
*(f) sicrhau eu hawliau."*

2.4 Yn dilyn hyn, addasodd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 (OS 2008/3132), a wnaed ar 10 Rhagfyr 2008, y diffiniad o "lesiant" gan ddileu'r cyfeiriad at 'gorfforol' a 'iechyd meddwl' yn (a) uchod. Addasodd hefyd y diffiniad o "wasanaethau gofal cymdeithasol" i gynnwys gwasanaethau gofal preswyl. Er mwyn gwrthweithio ehangu'r diffiniad hwn, addasodd OS 2008/3132 hefyd fater 15.1 i eithrio ffïoedd a thaliadau am ofal preswyl.

2.5 Dyma'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n nodi'r darpariaethau statudol sy'n rheoli'r drefn o godi ffïoedd am wasanaethau gofal cymdeithasol:

- Adran 17 Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol (1983) ar gyfer gwasanaethau oedolion;

- Adran 29 Deddf Plant 1989 ar gyfer gwasanaethau plant.

2.6 O dan adran 17 Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol, mae gan awdurdodau lleol bŵer i'w ddefnyddio yn ôl eu disgresiwn i adennill costau sydd, yn eu barn hwy, yn rhesymol gan oedolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl penodol. Yr unig amod yw na ddylai awdurdod ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddiwr gwasanaeth dalu mwy am wasanaethau nag sydd, ym marn yr awdurdod lleol, yn rhesymol ymarferol gan ystyried sefyllfa ariannol y defnyddiwr gwasanaeth.

2.7 Er y byddai mater 15.1 yn caniatáu i'r Mesur hwn gynnwys y drefn o godi ffïoedd am wasanaethau plant, nid dyma ein bwriad ar hyn o bryd ac nid ydym yn ceisio pwerau yn y Mesur mewn perthynas â'r gwasanaethau hyn.

# 3. Pwrpas ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth

## Cefndir

3.1 Caiff gofal cartref a gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl eraill eu darparu gan awdurdodau lleol o dan amrywiaeth o ddeddfwriaeth. Mae'r pŵer i godi ffïoedd am wasanaethau a ddarperir o dan y ddeddfwriaeth i'w weld yn adran 17 Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaethau adennill costau o'r fath (os o gwbl) yn ôl yr hyn y mae'n ei ystyried yn rhesymol. Fodd bynnag, mae'n nodi hefyd, os bydd yr awdurdod yn fodlon nad oes gan ddefnyddiwr y gwasanaeth fodd digonol i dalu'r swm a gâi ei godi arnyn nhw fel arall, na all yr awdurdod ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddiwr y gwasanaeth dalu mwy am y gwasanaeth na'r hyn sydd, yn eu barn hwy, yn "rhesymol ymarferol" i ddefnyddiwr y gwasanaeth ei dalu gan ystyried ei sefyllfa ariannol. Nid yw adran 17 yn ei gwneud yn ofynnol rhoi prawf modd i bob person y codir ffi arno.

3.2 Yn ymarferol, mae adran 17 yn rhoi disgresiwn eang i awdurdodau lleol o ran a ddylid codi ffïoedd a sut i bennu'r ffïoedd hynny. Mae arolygon a gwaith ymchwil wedi dangos ei bod yn bryder i ddefnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'u cynrychiolwyr bod ffïoedd yn cael eu gosod yn rhy uchel yn aml ac y gall gwahanol gynghorau godi gwahanol symiau am wasanaethau tebyg. Mewn gwaith ymchwil diweddar, tynnwyd sylw at anghysondeb yn lefelau ffïoedd awdurdodau lleol. Er enghraifft, dangosodd hwn fod uchafswm ffïoedd wythnosol am wasanaethau gofal cartref ledled Cymru yn amrywio o £16.20 mewn un awdurdod i £200 mewn un arall, ac nad oedd gan 7 awdurdod uchafswm o ran ffïoedd.

3.3 Gall Gweinidogion Cymru ddarparu canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch ymarfer eu trefniadau codi ffïoedd gan ddefnyddio eu pwerau o dan adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Gallant hefyd ddarparu canllawiau arfer da ynghylch codi ffïoedd. Yn 2002, cyhoeddwyd canllawiau "Codi Tâl Tecach" i awdurdodau lleol mewn ymgais i fynd i'r afael â rhai o broblemau'r amrywiaeth eang yn y polisïau codi ffïoedd ledled Cymru. Dim ond rhan o'r canllawiau hyn a gyhoeddwyd o dan adran 7 Deddf 1970 ac mae'n dal yn arfer da yn gyffredinol. Mae'r brif elfen sy'n statudol ledled Cymru yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau lefel sicr o incwm ar ôl talu'r ffïoedd.

3.4 Er bod adran 7 o Ddeddf 1970 yn ei gwneud yn bosibl i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol, nid yw'r pŵer hwn yn gwbl ddigyfyngiad. Pe bai Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau pellach o dan adran 7 mewn perthynas â chodi ffïoedd am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl, byddai angen iddynt fod yn siwr nad oeddent mor benodol eu hargymhellion eu bod yn cyfyngu ar y disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol yn adran 17 Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol. Gallai'r canllawiau nodi'n benodol sut dylai awdurdodau lleol ymarfer eu disgresiwn i godi ffïoedd ond ni allent ei gwneud yn orfodol i awdurdodau lleol ymarfer eu disgresiwn mewn ffordd benodol, er enghraifft

drwy osod uchafswm ffïoedd ar gyfer defnyddwyr neu wasanaethau penodol, neu drwy atal awdurdodau lleol rhag codi ffïoedd ar ddefnyddwyr penodol neu am wasanaethau penodol.

3.5 Nododd dogfen 'Cymru'n Un' Llywodraeth y Cynulliad, felly, ymrwymiad i "geisio'r pwerau ac yna gyflwyno'r ddeddfwriaeth i sicrhau mwy o chwarae teg o safbwynt codi tâl am wasanaethau gofal cartref". Ceisiwyd cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn i roi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu drwy Fesur Cynulliad er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.

**Yr Effaith y Bwriedir i'r Mesur ei Chael**

Fframwaith codi ffïoedd

3.5 Bwriad cyffredinol y Mesur arfaethedig yw ei gwneud yn bosibl cyflwyno trefn newydd ar gyfer codi ffïoedd a fydd yn sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn mabwysiadu dull mwy cyson o godi ffïoedd ar ddefnyddwyr gwasanaethau am ofal cymdeithasol dibreswyl. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cysoni'r drefn yn raddol gyda phecyn cychwynnol o welliannau a mwy eto o welliannau dros amser.

3.6 Byddai'r Mesur arfaethedig yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a fydd yn caniatáu i ddarpariaethau manwl gael eu nodi mewn rheoliadau a chanllawiau statudol i'w llunio o dan y Mesur. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl ac yn caniatáu i Lywodraeth bresennol Cynulliad Cymru a llywodraethau'r dyfodol ddilyn amrywiaeth o opsiynau heb fod angen Mesur pellach.

3.7 Bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth fanylach mewn rheoliadau am y canlynol:

a) mathau'r gwasanaethau y gellir codi ffïoedd amdanynt neu na ellir codi ffïoedd amdanynt (ee gofal cartref, canolfannau gofal dydd, trafnidiaeth, prydau bwyd, golchi dillad, gwasanaethau adsefydlu);
b) grwpiau'r cleientiaid y gellir codi ffïoedd arnynt neu na ellir codi ffïoedd arnynt (ee y sawl sy'n derbyn budd-daliadau penodol, gofalwyr, y sawl sydd dros drothwy oedran penodol);
c) y broses asesu ariannol (gan gynnwys yr hyn y gellir ei ystyried a'r hyn na ellir ei ystyried a lefel ofynnol yr incwm y mae'n rhaid ei adael i ddefnyddwyr gwasanaethau ar ôl codi ffïoedd);
d) y ffi uchaf y gellir ei thalu am wasanaeth unigol neu am unrhyw becyn gwasanaethau i unigolyn;
e) eithriadau o ran codi ffïoedd am wasanaethau rhagnodedig penodol neu i gategorïau o ddefnyddwyr gwasanaethau;
f) adolygiadau o benderfyniadau ynghylch ffïoedd a gymerir gan awdurdodau lleol.

3.8 O dan y Mesur arfaethedig bydd awdurdodau lleol yn parhau i allu pennu ffïoedd o'r fath am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn ôl yr hyn a ystyriant yn rhesymol. Fodd bynnag, bydd cyfyngiadau penodol ar y

disgresiwn cyffredinol hwn a gaiff eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Bydd awdurdodau lleol yn parhau i allu penderfynu peidio â chodi ffïoedd o gwbl neu godi'n llai na'r hyn fyddai'n rhesymol o dan y drefn newydd.

Darparu gwybodaeth

3.9 Mae'r Mesur arfaethedig yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth am ffïoedd. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi gwybodaeth i ddefnyddwyr presennol y gwasanaethau a darpar ddefnyddwyr am y gwasanaethau y codir ffi amdanynt, eu ffïoedd safonol a phrofion modd. Rhaid darparu'r wybodaeth hon yn rhad ac am ddim ac mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch. Lle bydd awdurdod lleol yn penderfynu pennu ffi, mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod roi gwybodaeth i'r sawl y codir ffi arno am y ffi arfaethedig a'r weithdrefn ar gyfer adolygu ffïoedd. Rhaid rhoi'r wybodaeth hon yn rhad ac am ddim hefyd. Bydd hyn yn sefydlu dull clir a chyson o roi gwybodaeth i ddefnyddwyr am eu ffïoedd a'r ffordd y caiff ceisiadau i'w hadolygu eu trin.

Taliadau uniongyrchol

3.10 Mae Adran 6A y Mesur yn darparu ar gyfer llunio rheoliadau sy'n rheoli taliadau uniongyrchol. Mae'n caniatáu ar gyfer rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau am daliadau uniongyrchol sy'n cyfateb i'r darpariaethau hynny a wneir yn y Mesur am godi ffïoedd ar y rheini sy'n derbyn gwasanaethau uniongyrchol. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau tegwch rhwng yr unigolion hynny sy'n derbyn taliadau uniongyrchol a'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau yn uniongyrchol o'u hawdurdod lleol.

**Hyd a Lled Tiriogaethol**

3.11 Mae'r Mesur yn berthnasol i Gymru yn unig.

**Cychwyn**

3.12 Daw adrannau 10 a 12 i rym ddau fis ar ôl i'w Mawrhydi yn y Cyngor gymeradwyo'r Mesur. Daw'r darpariaethau eraill i rym ar ddyddiad penodedig mewn gorchymyn gan Weinidogion Cymru.

## 4. Ymgynghoriad

4.1 I helpu i ddatblygu'r Mesur arfaethedig, sefydlodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol Grŵp Gorchwyl a Gorffen i randdeiliaid i roi gwybod iddi beth yw'r opsiynau posibl ar gyfer sicrhau mwy o gysondeb o ran codi ffïoedd a goblygiadau'r opsiynau.

4.2 Dyma gylch gorchwyl y Grŵp:

➢ *Rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu fframwaith diwygiedig ar gyfer codi ffïoedd am ofal cymdeithasol dibreswyl sy'n sicrhau canlyniadau tecach, mwy cyson i ddefnyddwyr a'u gofalwyr i'w gyflwyno drwy Fesur Cynulliad. Bydd y Grŵp yn:*

- *ystyried manylebau, methodoleg a chasgliadau ar gyfer ymarfer ymchwil i roi tystiolaeth a data sylfaenol i asesu effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig ar ddefnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr, darparwyr a llywodraeth leol;*

- *ystyried yr opsiynau ar gyfer cyflwyno Mesur Cynulliad i greu fframwaith codi ffïoedd tecach ar gyfer gofal cymdeithasol dibreswyl. Rhoi sylwadau ar deilyngdod pob opsiwn a nodir o ran:*

- *ei fanteision i ddefnyddwyr gwasanaethau;*
- *y math o ddefnyddwyr gwasanaethau a fyddai'n elwa ohono;*
- *dull ei weithredu a pha mor ymarferol y mae;*
- *pa mor dderbyniol y mae i bawb yr effeithir arnynt (hy defnyddwyr, darparwyr a chomisiynwyr);*

- *ystyried yr opsiynau ar gyfer gwella sut y caiff incwm a gwariant sy'n ymwneud ag anabledd ei drin a materion eraill yn y Mesur Cynulliad a chanllawiau statudol dilynol i awdurdodau lleol. Rhoi sylwadau ar deilyngdod pob opsiwn a blaenoriaeth a nodir o ran:*

- *ei fanteision i ddefnyddwyr gwasanaethau;*
- *y math o ddefnyddwyr gwasanaethau a fyddai'n elwa ohono;*
- *dull ei weithredu a pha mor ymarferol y mae;*
- *pa mor dderbyniol y mae i bawb yr effeithir arnynt (hy defnyddwyr, darparwyr a chomisiynwyr);*

- *creu adroddiad o'i gasgliadau.*

4.3 Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau, Coalisiwn Codi Ffïoedd Cymru, y Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn, darparwyr gwasanaethau gofal, awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn ogystal â swyddogion polisi a chyfreithiol perthnasol Llywodraeth y Cynulliad. Roedd gan y grŵp gynrychiolydd hefyd o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i asesu'r cynigion polisi yn erbyn deddfwriaeth cydraddoldeb.

4.4 Yn unol â'r cylch gorchwyl ac er mwyn helpu i lywio trafodaethau'r Grŵp, gwnaed ymchwil gan LE Wales, sef ymgynghoriaeth bolisi ac economaidd yng Nghymru sy'n rhan o'r Indecon-London Economics Consulting Group. Lluniodd LE Wales ddau adroddiad. Adroddiad Asesu Sylfaenol cynhwysfawr yw'r cyntaf am y darlun cyffredinol o'r drefn codi ffïoedd ymhlith awdurdodau lleol ar hyn o bryd am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yng Nghymru. Mae'n rhoi tystiolaeth bendant bod anghysonderau mawr yn y gwasanaethau y codir ffïoedd amdanynt; yn yr amrywiaeth o ffïoedd y mae'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau eu talu; yn yr asesiad ariannol; yn yr wybodaeth a roddir am y broses codi ffïoedd; ac yn y ffordd yr ymdrinnir ag apeliadau ynghylch ffïoedd.

4.5 Mae'r ail a'r Prif Adroddiad, a luniwyd mewn cydweithrediad ag aelodau'r Grŵp, yn dynodi 13 opsiwn polisi posibl ac yn asesu goblygiadau pob un. Mae'n canolbwyntio ar gyflwyno newidiadau mewn perthynas â phedwar prif faes yn y broses codi ffïoedd:

- asesiadau ariannol;
- y mathau o ddefnyddwyr gwasanaethau y codir ffi arnynt;
- gwasanaethau y codir ffi amdanynt;
- lefelau'r ffïoedd.

4.6 Wrth ystyried yr opsiynau hyn, rhoddodd LE Wales, ar y cyd â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, nifer o becynnau gwahanol ynghyd o opsiynau y gellid eu gweithredu i sicrhau mwy o gysondeb o ran ffïoedd. Roedd pob pecyn yn cynnwys un neu fwy o'r 13 opsiwn a nodwyd. Aseswyd pob pecyn yn erbyn cyfres y cytunwyd arni o feini prawf llwyddiant a rhoddwyd sgôr gyffredinol iddo. Mae'r ail adroddiad hefyd yn amlinellu rhai safbwyntiau a fynegwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau allanol ar fater cysondeb ac ar godi ffïoedd am ofal cymdeithasol dibreswyl.

4.7 Cyfarfu'r Grŵp wyth gwaith rhwng Mehefin a Rhagfyr 2008 ac mae ei adroddiad ynghyd ag adroddiadau LE Wales ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:

http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/reports/charging/?lang=en

Nododd y Grŵp amryw o oblygiadau o ran gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd, gan gynnwys cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau gan unigolion nad oeddent, ar hyn o bryd, yn eu defnyddio oherwydd eu cost, a'r angen i sicrhau na fyddai sefyllfa defnyddwyr y gwasanaethau yn gwaethygu o ganlyniad i unrhyw newidiadau a gâi eu gwneud. Er na ofynnwyd i'r Grŵp wneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r ffordd ymlaen, roedd y defnyddwyr gwasanaethau a'u cynrychiolwyr ar y Grŵp yn argymell pennu trothwy sengl ar gyfer codi ffioedd. Awgrymwyd y gellid pennu trothwy o £50,000 mewn cynilion i ddefnyddwyr. Pe bai gan ddefnyddiwr gynilion uwchlaw'r swm hwnnw, byddai'n atebol i dalu ffi safonol o £15 yr wythnos am wasanaethau.

4.8 Mae’r Mesur arfaethedig yn sefydlu fframwaith a fydd yn ei gwneud yn bosibl i Weinidogion Cymru, os dymunant, weithredu unrhyw un o’r opsiynau a’r pecynnau a nodwyd gan y Grŵp ac LE Wales dros amser neu bob un ohonynt. Mae hefyd yn adlewyrchu sylwadau’r Grŵp am yr wybodaeth a ddarperir a gweithdrefnau adolygu ffïoedd. Mae’r opsiynau a gyflwynwyd gan y grŵp wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu’r Mesur arfaethedig a phecyn cychwynnol o welliannau arfaethedig.

4.9 Y dyddiad cynharaf y gellid dechrau gweithredu newidiadau yn deillio o gymeradwyo’r Mesur arfaethedig ac unrhyw reoliadau dilynol fyddai Ebrill 2011. Cydnabyddir y bydd cryn ddiddordeb ym mwriadau tymor byr Gweinidogion Cymru o ran diwygio o dan y Mesur arfaethedig ac, oherwydd hyn, caiff datganiad o fwriadau polisi ei lunio i gyd-fynd â’r Memorandwm Esboniadol hwn, yn nodi manylion Pecyn Gwelliannau Camau Cyntaf.

## 5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau galluogi a grymuso i Weinidogion Cymru i weithredu a nodi manylion trefniadau diwygiedig codi ffïoedd mewn rheoliadau, gorchmynion a chanllawiau statudol.

5.2 Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn gwneud darpariaeth i orchymyn a wneir o dan y Mesur allu gwneud darpariaeth a ystyrir gan Weinidogion Cymru yn angenrheidiol neu'n gyfleus at ddibenion y Mesur neu yn sgil unrhyw un o ddarpariaethau'r Mesur, neu er mwyn rhoi effaith iddi. Gall gorchymyn o'r fath wneud gwelliannau i unrhyw Ddeddf Seneddol, Mesur Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth, ond lle gwneir gwelliant i Ddeddf Seneddol neu Fesur Cynulliad ni ddylid gwneud y gorchymyn oni bai bod fersiwn ddrafft wedi'i gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a'i bod wedi'i chymeradwyo drwy ei phasio ganddo (hy mae'r gorchymyn yn gorfod dilyn y weithdrefn gadarnhaol).

5.3 Ym mhob un o'r achosion a nodir isod, y rhesymeg dros gymhwyso is-ddeddfwriaeth yw'r angen i osgoi manylion amhriodol a chaniatáu ar gyfer hyblygrwydd, o fewn y cyfyngiadau a nodwyd yn y Mesur arfaethedig. Ymdrinnir â darpariaethau manwl ynghylch codi ffïoedd (megis sut dylid trin incwm a chyfalaf penodol wrth benderfynu ar fodd person) mewn rheoliadau i'w llunio o dan y Mesur. Mae hyn yn gyson â gweithdrefnau codi ffïoedd eraill a dyma'r ffordd ymlaen a ystyrir fwyaf priodol gan y bydd angen adolygu darpariaethau o'r fath yn rheolaidd.

5.4 O ystyried natur yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig, sy'n ymwneud yn bennaf â'r trefniadau ariannol a gweinyddol sy'n rheoli sut gweithredir y drefn codi ffïoedd ddiwygiedig, bydd y ddeddfwriaeth, gydag ambell eithriad, yn gorfod dilyn y **weithdrefn negyddol**. Y prif eithriad yw, os bydd yr is-ddeddfwriaeth yn ceisio diwygio Deddf Seneddol neu Fesur Cynulliad, y bydd yn gorfod dilyn y **weithdrefn gadarnhaol.**

### Adran 2 – Uchafswm y ffïoedd

5.5 Mae Adran 2(2) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sy'n rheoli ac yn cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i bennu ffï resymol am wasanaeth y codir ffi amdano. Diffinnir gwasanaeth y codir ffi amdano yn adran 7 fel y gwasanaethau hynny sy'n perthyn i is-adran 7(2). (Gellir diwygio rhestr y gwasanaethau yn adran 7(2) drwy orchymyn o dan adran 7(3). Gall gorchymyn o'r fath ychwanegu gwasanaeth at adran 7(2), neu ddiwygio neu ddileu disgrifiad o wasanaeth a gynhwysir ynddi.)

5.6 Bydd y pŵer yn adran 2 i lunio rheoliadau yn ei gwneud yn bosibl i Weinidogion Cymru bennu uchafswm y gall awdurdod lleol ei godi am wasanaeth penodol y gellir codi ffi amdano neu am unrhyw gyfuniad o wasanaethau y gellir codi ffi amdanynt. Gellid defnyddio hwn i gyflwyno rheoliadau sy'n sefydlu uchafswm ffi uned neu uchafswm ffi fesul awr, wythnos neu fis am wasanaeth y gellir codi ffi amdano neu gyfuniad o wasanaethau y gellir codi ffi amdanynt.

5.7 Bydd y pŵer hwn hefyd yn ei gwneud yn bosibl adolygu lefelau uchafswm ffïoedd bob hyn a hyn yn y dyfodol neu bennu lefelau ffïoedd ychwanegol heb fod angen diwygio'r Mesur ei hun.

### Adran 3 – Personau a gwasanaethau na chaniateir gosod ffïoedd ynglŷn â hwy

5.8 Mae Adran 3(1) yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sy'n eithrio categorïau penodol o bersonau neu wasanaethau rhag codi ffïoedd, er enghraifft, am eu bod yn derbyn budd-dal penodol neu am eu bod wedi cyrraedd oedran penodol.

### Adran 4A – Gwahoddiad i ofyn am asesiad modd

5.9 Mae Adran 4A(1) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wahodd defnyddiwr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth i ofyn am asesiad modd pan fydd yn cynnig gwasanaeth y gellir codi ffi amdano neu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol wedi hynny. Mae hefyd yn rhoi rhwymedigaeth ar awdurdod lleol lle darperir gwasanaeth i berson y gellir codi ffi amdano i roi gwahoddiad yn yr achosion a nodir yn y rheoliadau. Mae Adran 4A(4) yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sy'n rheoli ffurf a chynnwys gwahoddiadau o'r fath a'r dull y cânt eu llunio.

### Adran 4B – Dyletswydd i gynnal asesiad modd

5.10 O dan Adran 4B(1) rhoddir dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad modd ar ddefnyddiwr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth lle gofynnir am asesiad a lle bo'r holl amodau eraill yn Adran 4C wedi'u bodloni. Mae Adrannau 4B(3) a 4B(4) yn rhoi pwerau llunio rheoliadau i Weinidogion Cymru i nodi'n benodol sut mae'n rhaid cynnal asesiadau modd. Mae Adrannau 4B(2) a 4B(5) yn datgymhwyso'r ddyletswydd i gynnal asesiad modd yn yr achosion a nodir yn y rheoliadau a wnaed o dan is-adran (2) ac yn yr amgylchiadau a nodir yn is-adran (5) oni bai bod rheoliadau a wnaed o dan yr is-adran honno yn gwneud darpariaeth i'r gwrthwyneb.

### Adran 4C – Amodau sy'n arwain at y ddyletswydd i gynnal asesiad modd

5.11 Mae Adrannau 4C(1) i (4) yn nodi'r amodau sy'n arwain at ddyletswydd awdurdod lleol i gynnal asesiad modd. Mae Adran 4C(5) yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau ynghylch pwy ddylai ofyn am asesiad modd neu ddarparu'r wybodaeth ariannol ofynnol at y diben hwnnw. Byddai hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth i drydydd parti wneud cais am asesiad modd ar ran defnyddiwr gwasanaeth lle bo hynny'n briodol.

### Adran 4D – Penderfyniadau sy'n ymwneud â gallu i dalu

5.12 Mae Adran 4D(1) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i benderfynu, yng ngoleuni unrhyw asesiad modd a gynhelir, a yw'n rhesymol ymarferol i'r defnyddiwr gwasanaeth dalu'r ffi safonol ac, os nad yw, pa ffi (os o gwbl) y byddai'n rhesymol ymarferol iddynt ei thalu. Mae Adran 4D(4) yn diffinio'r term "ffi safonol" y cyfeirir ato yn is-adran (1) ac adran 5 fel y swm y byddai'n ofynnol i berson ei dalu am wasanaeth pe na bai unrhyw benderfyniad o dan y Mesur o ran gallu'r person i dalu yn effeithiol.

5.13 Mae Adran 4D(2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswydd o dan Adran 4D(1) yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru yn y rheoliadau. Mae Adran 4D(3) yn gwneud darpariaeth i'r rheoliadau o dan is-adran (2) gynnwys darpariaethau yn nodi'r union symiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu diystyru wrth asesu modd defnyddiwr gwasanaeth a symiau na ddylid lleihau incwm defnyddiwr gwasanaeth yn is na hwy ar ôl talu ffi.

**Adran 4E – Effaith penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gallu i dalu**

5.14 Mae Adran 4E(1) yn rhoi rhwymedigaeth ar awdurdod lleol sydd wedi gwneud penderfyniad o dan adran 4D neu 4F roi effaith i'r penderfyniad hwnnw wrth orfodi ffi. Yn amodol ar Adran 4E(3), bydd penderfyniad o'r fath yn effeithiol o'r dyddiad y mae'r awdurdod lleol yn ei ystyried yn rhesymol. Mae Adran 4E(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio rheoliadau ynghylch dyddiad gweithredu penderfyniad awdurdod lleol.

**Adran 4F – Awdurdod yn disodli penderfyniadau sy'n ymwneud â gallu i dalu**

5.15 Mae Adran 4F(1) yn galluogi awdurdod lleol i ddisodli penderfyniad â phenderfyniad newydd lle bodlonir amodau penodol. Mae Adran 4F(4)(d) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau yn nodi amodau pellach a fyddai'n caniatáu disodli penderfyniad.

**Adran 5 – Darparu gwybodaeth am ffïoedd**

5.16 Mae Adrannau 5(1) i 5(3) yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i roi gwybodaeth gyffredinol i ddefnyddwyr gwasanaethau a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau am ei bolisi codi ffïoedd mewn amrywiaeth o fformatiau hygyrch. Mae Adran 5(4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybodaeth benodedig i'r rhai sy'n derbyn, neu a allai dderbyn, gwasanaeth y gellir codi ffi amdano ac y bydd ffi, yn wir, yn cael ei godi amdano. Mae'r wybodaeth i'w darparu wedi'i rhestru yn is-adran 5(4) ac mae is-adran (e) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i ychwanegu at y rhestr hon. Rhaid darparu'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig ac mewn unrhyw fformat hygyrch arall y bydd y person dan sylw yn gofyn amdano lle bo'n rhesymol.

**Adran 6 – Adolygu penderfyniadau ar godi ffïoedd**

5.17 Mae Adran 6(1) yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau ar gyfer adolygu penderfyniadau ar godi ffïoedd a gymerir gan awdurdodau lleol ac mewn perthynas â'r adolygiad hwnnw. Mae is-adran 2 yn nodi enghreifftiau o'r mathau o ddarpariaeth y gellid eu cynnwys mewn rheoliadau.

**Adran 6A – Taliadau uniongyrchol**

5.18 Mae Adran 6A yn gwneud darpariaeth y gall Gweinidogion Cymru lunio rheoliadau am daliadau uniongyrchol sy'n gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r rhai a wnaed neu y gellir eu gwneud o dan adrannau 1 i 6 y Mesur hwn. Rhaid darllen yr adran hon ar y cyd ag adran 57 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 a'r pwerau llunio rheoliadau yn yr adran honno. Mae Adran 6A(4) yn rhoi enghreifftiau o'r math o ddarpariaeth y gellir ei gwneud o dan reoliadau o'r fath.

**Adran 7 – Gwasanaethau y gellir codi ffi amdanynt**

5.19 Mae Adran 7(2) yn nodi'r gwasanaethau y mae'r Mesur hwn yn berthnasol iddynt (cyfeirir at y gwasanaethau hyn fel y gwasanaethau y gellir codi ffi amdanynt). Mae Adran 7(3) yn galluogi Gweinidgoion Cymru drwy orchymyn i ychwanegu gwasanaeth at Adran 7(2) neu ddiwygio neu ddileu disgrifiad o wasanaeth a gynhwysir ynddi am y tro. Mae Adran 10(7) yn gwneud darpariaeth y bydd gorchymyn o'r fath yn gorfod dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

**Adran 10 – Gorchmynion a Rheoliadau**

5.20 Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth gyffredinol am orchmynion a rheoliadau a wneir o dan y Mesur.

5.21 Mae is-adran (1) yn gwneud darpariaeth, lle bydd y Mesur yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru lunio gorchmynion neu reoliadau, y caiff y rhain eu llunio drwy orchymyn statudol. Mae is-adran (2) yn gwneud darpariaeth y gall gorchmynion neu reoliadau o'r fath wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac y gall gynnwys darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, darfodol neu drosiannol neu ddarpariaethau arbed.

5.22 Mae is-adran (3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru drwy orchymyn i wneud darpariaeth sy'n angenrheidiol neu'n gyfleus at ddibenion y Mesur, neu yn sgil unrhyw un o ddarpariaethau'r Mesur, neu er mwyn rhoi effaith iddi. Mae is-adran (4) yn gwneud darpariaeth y gall gorchymyn o'r fath ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw un o ddarpariaethau Deddf Seneddol, Mesur Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth. Lle bo gorchymyn o'r fath yn diwygio Deddf Seneddol neu Fesur Cynulliad, bydd yn gorfod dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

5.23 Bwriad y drefn newydd yw sefydlu system syml a chydlynus ar gyfer delio â chost ariannol sicrhau gwasanaethau gofal cymdeithasol i unigolyn. Mae'r rhyngwyneb rhwng deddfwriaeth gofal cymdeithasol cyffredinol a chodi ffïoedd yn gymhleth ac er mwyn sicrhau bod y drefn newydd yn effeithiol,

efallai y bydd angen gwneud darpariaeth bellach o dan y pŵer hwn. Efallai y bydd angen y pŵer hwn hefyd i ddelio â chanlyniadau unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth gyffredinol hon, gan gynnwys newidiadau a allai godi o adolygiad cyfredol Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol oedolion.

**Adran 11 – Cychwyn a dehongli**

5.24 Mae is-adrannau 2 a 3 yn gwneud darpariaeth y daw adrannau 10 a 12 i rym ddau fis ar ôl i'w Mawrhydi yn y Cyngor gymeradwyo'r Mesur ac y daw'r darpariaethau eraill i rym yn unol â'r ddarpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy Orchymyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Mesur hwn ac yn dilyn yn Rhan 2.

6.2 Y dyddiad cynharaf y gellid dechrau gweithredu newidiadau sy'n deillio o gymeradwyo'r Mesur arfaethedig ac unrhyw reoliadau dilynol fyddai Ebrill 2011.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 7. Opsiynau

7.1 Mae'r opsiynau canlynol ar gael:

**Opsiwn 1:** Gwneud dim byd
**Opsiwn 2:** Cyflwyno mân-newidiadau gan ddibynnu ar y ddeddfwriaeth bresennol
**Opsiwn 3:** Cyflwyno Mesur Cynulliad

**Opsiwn 1 – Gwneud dim byd**

7.2 Mae'r prif ddarpariaethau statudol sy'n rheoli'r drefn codi ffïoedd am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn caniatáu elfen o ddisgresiwn sydd wedi creu amrywiadau eang yn lefelau'r ffïoedd a godir ledled Cymru. Er gwaethaf y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae'n dal i fod anghysondeb eang yn y ffordd y codir ffïoedd am wasanaethau, yn y defnyddwyr gwasanaethau y codir ffi arnynt, yn y broses asesu ariannol ac yn lefelau'r ffïoedd a bennir ar gyfer gwasanaethau. Mae yna anghysonderau hefyd yn yr wybodaeth a roddir gan awdurdodau lleol am y broses codi ffïoedd ac yn y ffordd yr ymdrinnir ag apeliadau ynghylch ffïoedd.

7.3 Byddai gwneud dim byd yn caniatáu i sefyllfa barhau lle gall defnyddwyr gwasanaethau fod yn talu gwahanol symiau mewn gwahanol awdurdodau am yr un gwasanaeth neu wasanaeth tebyg, a byddai'n caniatáu i system barhau sy'n gymhleth ac yn anodd i ddefnyddwyr gwasanaethau ei deall. Mae gwneud dim byd yn debygol o ganiatáu i'r anghysonderau hyn barhau gan effeithio'n andwyol ar rai o'n dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed.

**Opsiwn 2 – Cyflwyno mân-newidiadau gan ddibynnu ar y ddeddfwriaeth bresennol**

7.4 Mae'r opsiwn hwn yn dibynnu ar ddefnyddio'r pwerau deddfwriaethol cyfredol mewn cydweithrediad a phartneriaeth â llywodraeth leol yng Nghymru. Mae Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi canllawiau cyffredinol i awdurdodau lleol ar ymarfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys eu disgresiwn i godi ffïoedd.

7.5 Yn 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau "Codi Tâl Tecach" ar gyfer awdurdodau lleol. Cyhoeddwyd y rhain mewn ymgais i fynd i'r afael â rhai o'r anghysonderau mewn polisïau codi ffïoedd. Mae'r canllawiau yn parhau'n arfer da i raddau helaeth ac eithrio pum elfen a wnaed yn statudol drwy ganllawiau a gyhoeddwyd o dan adran 7 Deddf 1970. Er y gellid rhoi canllawiau pellach i awdurdodau lleol, mae cyngor cyfreithiol yn nodi y byddai'n bwysig sicrhau nad ydynt mor benodol eu hargymhellion eu bod yn cyfyngu ar y disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol (adran 17 Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol). Gallai canllawiau pellach fel hyn roi

cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar sut y dylent ymarfer eu disgresiwn i godi ffïoedd ond ni allent ei gwneud yn orfodol i awdurdodau ymarfer y disgresiwn hwnnw mewn ffordd benodol, er enghraifft drwy osod uchafswm ffïoedd ar gyfer defnyddwyr neu wasanaethau penodol, neu drwy eu hatal rhag codi ffïoedd ar ddefnyddwyr penodol neu am wasanaethau penodol.

7.6 Er y gellid gwneud rhai gwelliannau, felly, drwy ddibynnu ar y fframwaith statudol presennol, dim ond mân-welliannau fyddai'r rhain. Byddai'n dal i fod gan awdurdodau lleol ddisgresiwn eang ynghylch sut i gyfrifo costau a lefel y ffi, ac ni fyddai'r opsiwn hwn, felly, yn sicrhau'r gwelliannau o ran cysondeb a thegwch y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am eu cyflawni. Byddai hefyd yn syrthio'n fyr iawn o ddisgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid yn y maes hwn.

**Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur Cynulliad**

7.7 Yr opsiwn hwn fyddai'r mwyaf effeithiol o ran cyflawni'r amcan polisi o sefydlu trefn newydd ar gyfer codi ffïoedd am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl a fydd yn sicrhau cysondeb llawer mwy ledled Cymru. Byddai Mesur yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru ragnodi polisi unffurf i awdurdodau lleol o ran codi ffïoedd heb gael gwared â disgresiwn cyfredol awdurdodau o ran a ddylid codi ffïoedd o gwbl neu a ddylid codi ffïoedd is nag a fyddai'n ofynnol.

7.8 Mae'r cynnig ar gyfer Mesur i gyflwyno trefniadau codi ffïoedd tecach wedi'i groesawu gan ddefnyddwyr gwasanaethau a sefydliadau rhanddeiliaid allweddol. Gwnaeth grŵp gorchwyl a gorffen rhanddeiliaid gyfraniad gwerthfawr i'r broses o ystyried opsiynau ar gyfer newid a goblygiadau'r opsiynau hynny.

7.9 Mae'r Mesur arfaethedig yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a fydd yn ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno system lawer mwy cyson yn raddol drwy becyn cychwynnol o welliannau a gwelliannau pellach dros amser. Caiff darpariaethau manwl eu nodi mewn rheoliadau a chanllawiau statudol, i'w llunio o dan y Mesur, a thrwy hynny ddarparu'r hyblygrwydd mwyaf posibl a chaniatáu i Lywodraeth bresennol Cynulliad Cymru a llywodraethau'r dyfodol dreialu amrywiaeth o opsiynau heb fod angen Mesur pellach.

## 8. Costau a Manteision

**Opsiwn 1: Gwneud dim byd**

Manteision:

8.1 Nid oes mantais i'w chael o wneud dim byd. Mae trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer codi ffïoedd am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn debygol o barhau i wahaniaethu, ar draul defnyddwyr gwasanaethau, yn benodol mewn ardaloedd lle mae'r costau uchaf.

Costau:

8.2 Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd gan awdurdodau lleol drwy godi ffïoedd am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn ystod blwyddyn ariannol 2007-08 oedd £36-37m, a gwariwyd tua £5m ohono ar gostau gweinyddol gwasanaethau. Yn ogystal, derbyniodd awdurdodau lleol £8.5m i wneud iawn am yr incwm a gollwyd yn sgil cyflwyno newidiadau pellach i'r canllawiau statudol. Roedd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol diystyru rhai elfennau o incwm defnyddwyr gwasanaethau o'r asesiad codi ffïoedd (gweler paragraff 8.7).

8.3 Os caiff y trefniadau presennol o ran codi ffïoedd eu cynnal, dim ond chwyddiant neu gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau all effeithio ar gostau awdurdodau lleol a'r gost gymesur i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, lle mae cyfraddau uchafswm ffïoedd awdurdodau lleol yn amrywio'n eang ar hyn o bryd, rydym eisoes yn gweld arwyddion bod y cyfraddau isaf yn cael eu codi er mwyn i'r ffi am y gwasanaeth fod yn uwch er gwaethaf y gofynion statudol sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Er y byddai hyn yn cynyddu incwm awdurdodau lleol heb gost ychwanegol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, byddai'n dwysáu'r pwysau o ran cost ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Drwy ddilyn cynigion o dan y Mesur i reoleiddio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn mabwysiadu uchafswm ffi wythnosol benodedig yn ffordd o osgoi'r effaith andwyol hon.

8.4 O ran y gost i ddefnyddwyr gwasanaethau unigol, bydd unigolion sy'n mynd heb wasanaethau y mae eu hangen arnynt ond nad ydynt yn gallu eu fforddio dan anfantais o gymharu â'r rhai mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill lle mae costau'r gwasanaethau yn fwy fforddiadwy. Mewn achosion o'r fath, y tebygolrwydd yw y bydd iechyd yr unigolyn yn dirywio nes y bydd angen iddo fynd i'r ysbyty, sy'n cynyddu baich y gost ar y GIG. Mae'r system gyfredol yn gymhleth ac yn anodd ei gweinyddu ac mae hyn yn rhoi baich gweinyddol mwy ar awdurdodau lleol.

**Opsiwn 2: Cyflwyno mân-newidiadau gan ddibynnu ar ddeddfwriaeth bresennol**

Manteision:

8.5 Mae strwythurau eisoes ar waith a gweithdrefnau wedi'u hen sefydlu i sicrhau bod modd gweithredu unrhyw newidiadau pellach i'r canllawiau statudol presennol yn gyflymach na'r rheoliadau o dan y Mesur arfaethedig.

8.6 Byddai rhai gwelliannau cyfyngedig ar gyfer nifer fach o ddefnyddwyr gwasanaethau.

Costau:

8.7 Byddai costau gweithredu a chostau gweinyddol i awdurdodau lleol yn gysylltiedig â chyflwyno unrhyw newidiadau pellach drwy ganllawiau statudol. Gallai'r newidiadau arwain hefyd at leihau swm y ffïoedd a gesglir ac felly at golli incwm i awdurdodau lleol. Byddai disgwyl i Lywodraeth Cynulliad Cymru dalu iawn i awdurdodau lleol am y costau ychwanegol hyn y byddai angen eu cynnwys yng nghyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Isod rhoddir enghraifft o'r newidiadau a wnaed yn flaenorol a'r costau sy'n gysylltiedig â hwy:

Gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol y dylent o 9 Ebrill 2007:

- sicrhau na chaiff incymau net defnyddwyr gwasanaethau eu lleihau ar ôl codi ffïoedd yn is na lefel "sylfaenol" Cymhorthdal Incwm, neu'n is na'r lefel credyd gwarant priodol, yn ogystal â byffer o ddim llai na 35% o hyn (wedi'i godi o fyffer blaenorol o 25%);

- sicrhau, yn achos pob defnyddiwr gwasanaeth, y diystyrir 10% o Wariant sy'n Gysylltiedig ag Anabledd mewn perthynas â'u lefel "sylfaenol" gyfatebol o Gymhorthdal Incwm neu eu lefel credyd gwarant priodol.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn, talwyd tua £8.5m i awdurdodau lleol yng Nghymru yn lle incwm a gollwyd yn 2007-08 a £9.5m yn 2008-09. Yn ogystal, cawsant tua £570,000 dros y ddwy flynedd am gostau TG untro a chostau gweinyddu a chyhoeddusrwydd parhaus. Dosbarthwyd yr arian hwn drwy gynllun grant penodol. Y bwriad yw ariannu'r newidiadau drwy Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth Leol o 2010-11 ymlaen.

**Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur Cynulliad**

Manteision:

8.8 Mae'r opsiwn hwn yn caniatáu i fwriad y polisi gael ei gyflawni'n llawn ac mae'n arwyddo ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella bywydau rhai o'r dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed.

8.9 Bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno fframwaith diwygiedig ar gyfer codi ffïoedd a fydd yn arwain at lawer mwy

o gysondeb yn nhrefniadau awdurdodau lleol ar gyfer codi ffïoedd am ofal gwasanaethau cymdeithasol dibreswyl. Ymhlith manteision yr opsiwn hwn mae:

- system sy'n decach ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ac sy'n cael gwared â'r anghysonderau cyfredol;
- mwy o eglurder yngylch lefelau ffïoedd am wasanaethau a sut mae cyfraniad defnyddwyr gwasanaethau wedi'i gyfrifo;
- system sy'n symlach i'w deall;
- system fwy cost-effeithiol â chostau gweinyddol is;
- proses adolygu syml a fydd yn caniatáu i anghytundebau gael eu datrys yn anffurfiol, a hynny'n gynnar

8.10 Yn gyffredinol bydd yr arbedion cost i ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael effaith gadarnhaol a bydd mwy o incwm yn sicrhau gwell ansawdd bywyd iddynt.

Costau:

Darparu gwybodaeth am ffïoedd

8.11 Bydd y Mesur arfaethedig yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i roi gwybodaeth am y gwasanaethau y codir ffïoedd amdanynt, eu ffïoedd safonol a phrofion modd. Rhaid rhoi'r wybodaeth yn rhad ac am ddim ac mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch. Lle bydd awdurdod yn penderfynu gosod ffi, bydd y Mesur arfaethedig hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod roi gwybodaeth i'r person y codir ffi arno am y ffi arfaethedig, sut y'i cyfrifwyd a sut gall wneud cais am adolygiad o'r ffi arfaethedig a'r weithdrefn ar gyfer gwneud hyn.

8.12 Mae'r canllawiau Codi Tâl Tecach a gyhoeddwyd ar gyfer awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2002 yn cynnwys y datganiad canlynol:

*Information about charges*

*Clear information about charges and how they are assessed should be readily available for users and carers. This information should be made available at the time a person's needs for care are assessed.*

*Once a person's care needs have been assessed and a decision has been made about the care to be provided, an assessment of ability to pay charges should be carried out promptly, and written information about any charges assessed as payable, and how they have been calculated, should be communicated promptly. This should normally be done before sending a first bill. Charges should not be made for any period before an assessment of charges has been communicated to the user, although exceptionally this may be unavoidable where the user has not co-operated with the assessment. A first bill for a charge for a lengthy past period can cause needless anxiety. Any*

*increase in charges should also be notified and no increased charge made for a period before the notification.*

*Information for charge payers should make clear that they may either seek a review of their assessed charge, or they may make a formal complaint if they are dissatisfied with any aspect of the assessment. Councils will need to consider how best to make the facility for a review accessible to users and how to ensure independence and consistency in decisions.*

8.13 Yn unol â'r canllawiau, mae'r asesiad sylfaenol o gynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer codi ffïoedd a wnaed gan LE Wales i helpu gyda gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen rhanddeiliaid yn dangos bod awdurdodau lleol yng Nghymru, fel mater o arfer da, eisoes yn rhyddhau gwybodaeth am lefel y ffïoedd a bennir ac am y broses asesu ffïoedd. Lle penderfynant osod ffi, maent hefyd yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaethau am eu ffïoedd neu eu ffïoedd arfaethedig a sut mae'r rhain wedi'u cyfrifo a sut y gellir adolygu'r ffi.

8.14 Pwrpas cynnwys y gofynion hyn yn y Mesur arfaethedig, felly, yw atgyfnerthu a chadarnhau'r arfer da sydd eisoes yn bodoli ymhlith awdurdodau lleol yn hyn o beth a darparu fframwaith cyffredin a fydd yn sicrhau dull clir a chyson o weithredu. Cost cyffredinol gweinyddu'r trefniadau gosod ffïoedd i awdurdodau lleol ar draws Cymru yw £5 miliwn y flwyddyn, ond o fewn y ffigwr hwnnw ni cheir unrhyw ddadansoddiad o eitemau gwariant penodol. Fodd bynnag, ni fyddai angen ond cyfran fach iawn o'r costau cyffredinol hyn i ddarparu gwybodaeth am y ffïoedd. O ystyried mai pwrpas y Mesur yw sicrhau bod y wybodaeth am ffïoedd yn cael ei darparu mewn fformat cyson yn y dyfodol, ni ragwelir costau ychwanegol o gwbl i awdurdodau lleol o ran bodloni'r gofynion hyn yn y ddeddfwriaeth arfaethedig. O ganlyniad, nid yw darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn achosi unrhyw gostau ychwanegol, boed yn gostau gweinyddu, cydymffurfiaeth neu gostau eraill.

Darpariaethau'r fframwaith

8.15 Ar wahân i'r gofyniad i ddarparu'r wybodaeth a nodir uchod, caiff yr elfennau eraill o unrhyw drefniadau diwygiedig o ran codi ffïoedd eu nodi mewn rheoliadau a chanllawiau i'w llunio o dan y Mesur arfaethedig. Caiff unrhyw gostau gweithredu ar gyfer awdurdodau lleol fel colli incwm a chostau gweinyddol a TG sy'n gysylltiedig â'r newidiadau eu hasesu yn unol â hynny fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth honno.

9. Asesu'r Gystadleuaeth

9.1 Ni chaiff unrhyw drefniadau newydd effaith andwyol ar y gystadleuaeth ar gyfer busnes, elusennau, llywodraeth leol a/neu y sector gwirfoddol.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Caiff y trefniadau monitro ac adolygu eu nodi ym manylion y rheoliadau sydd i’w gwneud o dan y Mesur arfaethedig.

# Atodiad 1

# Nodiadau Esboniadol

## Rhagymadrodd

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn ymwneud â'r Mesur Arfaethedig Ynghylch Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Cymru) fel y'i cyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 29 Mehefin 2009.

2. Mae Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi paratoi'r Nodiadau hyn er mwyn cynorthwyo darllenydd y Mesur arfaethedig a bod o gymorth drwy gyflwyno gwybodaeth er mwyn gallu cynnal dadl am y Mesur. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Mesur drafft ac ni chawsant eu hategu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur arfaethedig. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Felly, os yw'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad neu sylw ar adran neu ran o adran, nis rhoddir.

4. Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth ynghylch codi ffioedd gan awdurdodau lleol am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl. Gellir gweld cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu ar y mater hwn ym mater 15.1 ym Maes 15 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) ("GOWA 2006"). Nodwyd mater 15.1 yn wreiddiol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2008 ar 9 Gorffennaf 2008 ac mae'n caniatáu i'r Cynulliad ddarparu ynghylch:

"*Ffioedd a godir gan awdurdodau lleol am wasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir neu a sicrheir ganddynt a thaliadau ar gyfer unigolion ag anghenion sy'n ymwneud â'u lles fel bod modd iddynt hwy, neu i'r personau sy'n gofalu amdanynt, sicrhau gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddiwallu'r anghenion hynny.*"

### Adran 1 – Codi ffioedd am wasanaethau gofal: y rheol gyffredinol

Mae is-adrannau 1(1) ac 1(2) yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth y gellir codi ffi amdano godi ffi am y gwasanaeth hwnnw am y cyfryw swm ag y mae'n ystyried sy'n rhesymol (i gael disgrifiad o'r gwasanaethau y gellir codi ffi amdanynt y mae'r Mesur yn ymwneud â hwy gweler y nodiadau ar adran 7). Ond mae adran 1(3) yn gwneud darpariaeth i'r pŵer hwn fod yn ddarostyngedig i nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol y cyfeirir atynt yn is-adran (3) sef:

- darpariaethau adran 2 ar uchafswm y ffioedd;

- darpariaethau adran 3 ynghylch personau a gwasanaethau na chaniateir gosod ffioedd ynglŷn â hwy;
- darpariaethau adran 4E(1) (effaith penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gallu i dalu); ac
- unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 16 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) (darparu gwasanaethau yng Nghymru yn ddi-dâl) 2003.

Mae is-adrannau (4) a (5) yn darparu pŵer i awdurdod lleol adennill ffi am wasanaethau y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddynt ac i adennill y cyfryw ffi fel dyled sifil mewn achos llys.

**Adran 2 – Uchafswm y ffioedd**

Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (2) wrth iddynt ystyried beth yw ffi resymol am wasanaeth y gellir codi ffi amdano.

Mae is-adran (3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rheoli'r hyn yw ffi resymol neu'n cyfyngu arni. Mae is-adran (3) yn rhoi enghreifftiau o'r math o ddarpariaeth y caniateir ei chynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran hon. Mae'n cynnwys darpariaeth sy'n pennu'r uchafswm y caiff awdurdod lleol ei godi am wasanaeth penodol y gellir codi ffi amdano neu am unrhyw gyfuniad o wasanaethau y gellir codi ffi amdanynt a darpariaeth sy'n cadarnhau uchafswm ffi fesul awr neu fesul wythnos.

**Adran 3 – Personau a gwasanaethau na chaniateir gosod ffioedd ynglŷn â hwy**

Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n eithrio personau neu wasanaethau penodol y gellir codi ffi amdanynt rhag codi ffi. Mae is-adrannau 2(a) a 2(b) yn rhoi enghreifftiau o'r modd y gellir diffinio categorïau o bersonau sy'n cael eu heithrio; gwneir hyn drwy gyfeirio at eu hoedran neu at dderbyn taliadau penodedig, cyfleusterau neu wasanaethau. Mae is-adran 2(c) yn darparu y gellir eithrio categorïau o wasanaethau y gellir codi ffi amdanynt drwy gyfeirio at y cyfnod o amser pan ddarperir hwy.

**Adran 4A – Gwahoddiad i ofyn am asesiad modd**

Mae adran 4A(1) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wahodd defnyddiwr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth i ofyn am asesiad modd pan fydd yn cynnig gwasanaeth y gellir codi ffi amdano neu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol wedi hynny. Mae hefyd yn rhoi rhwymedigaeth ar awdurdod lleol lle darperir gwasanaeth i berson y gellir codi ffi amdano i roi gwahoddiad yn yr achosion a nodir yn y rheoliadau.

Mae is-adran (2) yn gwneud darpariaeth, lle bo'n ofynnol rhoi gwahoddiad, na all awdurdod lleol osod na newid ffi oni bai bod gofynion penodol wedi'u

bodloni. Y gofynion yw bod y gwahoddiad wedi'i roi a, lle ymatebwyd iddo yn unol â'r darpariaethau i'w nodi mewn rheoliadau, fod yr awdurdod wedi cynnal asesiad modd ac wedi gwneud penderfyniad ynghylch y gallu i dalu.

Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau ffurf a chynnwys gwahoddiadau a'r dull o roi'r gwahoddiadau hynny.

**Adran 4B – Dyletswydd i gynnal asesiad modd**

Mae is-adran (1) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad ar ddefnyddiwr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth lle bo'r amodau a nodir yn adran 4C wedi'u bodloni. Mae is-adrannau (2) a (5) yn datgymhwyso'r ddyletswydd hon yn yr achosion a nodir yn y rheoliadau a wnaed o dan is-adran (2) ac yn yr amgylchiadau a nodir yn is-adran (5) oni bai bod rheoliadau a wnaed o dan yr is-adran honno yn gwneud darpariaeth i'r gwrthwyneb.

Mae is-adrannau (3) a (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio rheoliadau ynghylch sut dylid cynnal asesiadau modd.

**Adran 4C – Amodau sy'n arwain at y ddyletswydd i gynnal asesiad modd**

Mae'r adran newydd hon yn nodi'r amodau sy'n arwain at ddyletswydd awdurdod lleol i gynnal asesiad modd, fel y nodir yn adran 4B(1). Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth yn y rheoliadau ynghylch pwy gaiff wneud y cais am asesiad modd neu roi unrhyw wybodaeth ariannol angenrheidiol ar ran defnyddiwr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth.

**Adran 4D – Penderfyniadau sy'n ymwneud â gallu i dalu**

Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu, yng ngoleuni unrhyw asesiad modd a gynhelir, a yw'n rhesymol ymarferol i'r defnyddiwr gwasanaeth dalu'r ffi safonol ac, os nad yw, pa ffi (os o gwbl) y byddai'n rhesymol ymarferol iddynt ei thalu.

Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswyddau o dan is-adran (1) yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed yn rheoliadau Gweinidogion Cymru.

Mae is-adran (4) yn diffinio'r term 'ffi safonol', y cyfeirir ato yn is-adran (1) ac yn adran 5.

**Adran 4E – Effaith penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gallu i dalu**

Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi effaith i unrhyw benderfyniad a wneir o ran gallu defnyddiwr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth i dalu am wasanaeth y gellir codi ffi amdano.

Mae is-adrannau (2) a (3) yn gwneud darpariaeth ynghylch dyddiad gweithredu’r penderfyniadau.

Mae is-adrannau (4) a (5) yn ymwneud â dyddiad gweithredu’r penderfyniadau newydd.

**Adran 4F – Awdurdod yn disodli penderfyniadau sy’n ymwneud â gallu i dalu**

Mae is-adran (1) yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol ddisodli penderfyniad â phenderfyniad newydd yn amodol ar fodloni’r hyn a nodir yn is-adran (4). Mae is-adran (4)(d) yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau yn nodi amodau eraill.

Mae is-adran (2) yn gwneud darpariaeth, lle mae rhwymedigaeth ar awdurdod lleol i roi gwahoddiad i ofyn am asesiad modd, na all ddisodli penderfyniad sydd eisoes yn bodoli hyd nes rhoddir y gwahoddiad ac yr ymatebwyd iddo a hyd nes i’r asesiad newydd gael ei gwblhau.

Mae is-adran (3) yn sicrhau na chaiff y penderfyniad newydd fod yn wahanol i’r penderfyniad y mae’n ei ddisodli ond i’r graddau y bernir ei fod yn briodol yng ngoleuni’r materion yn is-adran (4).

**Adran 5 – Darparu gwybodaeth am ffioedd**

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth i'r rheini sy'n derbyn, neu a all fod yn derbyn, gwasanaeth y gellir codi ffi amdano a'r rheini y maent yn penderfynu codi ffi arnynt.

Mae is-adrannau (1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddwyn yr wybodaeth ganlynol i sylw personau sy'n derbyn gwasanaeth y gellir codi ffi amdano neu a all fod yn derbyn gwasanaeth o’r fath:

- gwybodaeth ynghylch pa wasanaethau y codir ffi amdanynt a'r rhai na chodir ffi amdanynt;
- gwybodaeth ynghylch y “ffi safonol” am wasanaethau gwahanol (fel y’i diffinnir yn adran 4D(4)); a
- gwybodaeth ynghylch profi modd.

Mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth bod yn rhaid darparu’r wybodaeth gyffredinol hon mewn ystod o fformatau hygyrch, a hynny’n rhad ac am ddim.

Mae is-adrannau (4) a (5) yn ymwneud â gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei rhoi i bersonau y maent yn penderfynu gosod ffi arnynt. Rhaid darparu'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig ac mewn unrhyw fformat hygyrch arall y mae'r person yn rhesymol yn gwneud cais amdani, yn ddi-dâl, ac o fewn 21 o ddiwrnodau o ddyddiad penderfynu gosod neu newid ffi.

**Adran 6 – Adolygu penderfyniadau ar godi ffioedd**

Mae'r adran yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r trefniadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud i adolygu penderfyniadau ar godi ffioedd. Mae is-adran (2) yn rhoi enghreifftiau o'r math o ddarpariaeth y caniateir ei chynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran hon. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynglŷn â hawl unigolyn i ofyn am adolygiad, y broses y mae'n rhaid i unigolyn ei dilyn i arfer yr hawl honno a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i awdurdod eu dilyn wrth gynnal yr adolygiad. Gellir gwneud darpariaeth hefyd ynghylch pwy all ofyn am adolygiad ar ran unigolyn y mae'n rhaid rhoi datganiad am ffïoedd iddo o dan adran 5(4).

**Adran 6A – Taliadau uniongyrchol**

Mae'r adran hon yn berthnasol lle bo awdurdod lleol yn gwneud taliadau uniongyrchol i unigolyn o dan adran 57 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001. Rhaid darllen yr adran ar y cyd ag adran 57 Deddf 2001 a'r pwerau llunio rheoliadau yn yr adran honno.

Mae is-adrannau (2) a (3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am daliadau uniongyrchol sy'n gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r rhai a wneir, neu y caniateir eu gwneud, o dan adrannau 1-6 y Mesur hwn. Mae is-adran (4) yn rhoi enghreifftiau o'r math o ddarpariaeth y gellir ei gwneud o dan reoliadau o'r fath tra bo is-adran (5) yn diffinio telerau penodol a ddefnyddir yn yr adran.

**Adran 7 – Gwasanaethau gofal y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddynt**

Mae'r adran hon yn pennu'r gwasanaethau y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddynt a diffinnir y gwasanaethau hyn fel gwasanaethau y gellir codi ffi amdanynt. Y gwasanaethau hyn y gellir codi ffi amdanynt yw'r gwasanaethau hynny a ddarperir o dan y deddfiadau a bennir yn is-adran 7(2). Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau lles i bersonau oedrannus a hyglwyf megis gofal cartref, canolfannau gofal dydd, golchi dillad, trafnidiaeth a phrydau bwyd. Cafodd gwasanaethau gofal preswyl eu heithrio o ystod y Gorchymyn galluogi Cymhwysedd Deddfwriaethol ac o'r herwydd cawsant eu heithrio o'r Mesur hwn.

Yn amodol ar gyfyngiadau mater 15.1 ym Maes 15 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae adran 7(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy orchymyn i ychwanegu gwasanaeth at adran 7(2) neu ddiwygio neu ddileu'r disgrifiad o wasanaeth a gynhwysir ynddi am y tro. Mae adran 10(7) yn gwneud darpariaeth y bydd gorchymyn o'r fath yn gorfod dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

**Adran 8 – Diwygio Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983**

Mae'r adran hon yn diwygio'r ddeddfwriaeth y mae awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn Lloegr ar hyn o bryd yn codi ffi am wasanaethau gofal dibreswyl oddi tani. Mae'n darparu, ac eithrio o ran gwasanaethau a ddarperir o dan adran 2 Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 ar ffurf gofal preswyl, y

bydd adran 17 o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 yn gymwys i awdurdod yn Lloegr yn unig. Ar gyfer awdurdodau lleol yn Nghymru, bydd adran 17 yn parhau i fod yn gymwys o ran gwasanaethau a ddarperir o dan adran 2 Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 ar ffurf gofal preswyl yn unig. Yn achos gwasanaethau dibreswyl caiff y drefn godi ffioedd ei llywodraethu gan y Mesur hwn a chan reoliadau sydd i'w gwneud o dan y Mesur.

**Adran 9 – Diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970**

Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Mae Deddf 1970 yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys gofyniad bod awdurdodau lleol Cymru wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn cydymffurfio â chanllawiau a chyfarwyddiadau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. At ddibenion Deddf 1970 swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yw'r swyddogaethau hynny o dan y deddfiadau a bennir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf. Mae adran 9 yn ychwanegu adrannau penodedig o'r Mesur hwn at y rhestr honno o ddeddfiadau yn Atodlen 1 ac mae'n peri bod codi ffioedd am wasanaethau lles awdurdodau lleol yn swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol at ddibenion Deddf 1970.

**Adran 9A – Diwygio Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001**

Mae’r adran hon yn diwygio Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 drwy gynnwys adran 57(7B) newydd i dynnu sylw darllenwyr at fodolaeth y Mesur Ynghylch Ffïoedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru) a’r ddarpariaeth ychwanegol ynddo o ran taliadau uniongyrchol yng Nghymru.

**Adran 10 – Gorchmynion a rheoliadau**

Mae'r adran hon yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch is-ddeddfwriaeth (gorchmynion a rheoliadau) a wneir o dan y Mesur.

Mae is-adran (1) yn darparu, pan fydd Gweinidogion Cymru wedi eu galluogi gan y Mesur i wneud gorchmynion neu reoliadau, maent i'w gwneud drwy offerynnau statudol. Mae hyn yn golygu bod darpariaethau Deddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys i'r gorchmynion a'r rheoliadau hynny, gan gynnwys gofynion ynghylch eu cyhoeddi. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff gorchmynion neu reoliadau a wneir o dan y Mesur wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol a chânt gynnwys darpariaethau cysylltiedig, darpariaethau atodol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau darfodol, darpariaeth trosiannol neu ddarpariaethau arbed.

Mae is-adran (3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru drwy orchymyn i wneud darpariaethau sydd yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion y Mesur, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Mesur neu er mwyn rhoi effaith iddi. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff gorchymyn o'r fath ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol, Mesur

Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth. Mae is-adrannau (5) i (7) yn nodi gweithdrefn y Cynulliad y bydd offeryn statudol a wneir o dan y Mesur yn ddarostyngedig iddo. Bydd angen i orchmynion sy'n diwygio Deddfau neu Fesurau gael eu cymeradwyo drwy gael eu pasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fel yn achos unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 7(3).

**Adran 11 – Cychwyn a dehongli**

Mae is-adran (1) yn diffinio'r term “awdurdod lleol” at ddibenion y Mesur.

Mae is-adrannau (2) a (3) yn darparu bod adran 10 a 12 yn dod i rym ddau fis ar ôl i'r Mesur gael ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor a bod gweddill y darpariaethau yn cael eu dwyn i rym yn unol â darpariaeth sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn. Mae is-adran (4) yn gwneud darpariaeth y gall gorchymyn o dan is-adran (3) wneud darpariaeth i ddarpariaethau’r Mesur ddod i rym ar ddiwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.